# Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2619A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Cyngor Sir Fynwy; Cyngor Dinas Casnewydd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/sydd i'w gyflawni yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 2 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae partneriaid o'r farn bod y cydweithrediad wedi cyflawni'n effeithiol yn ystod y pandemig ac er mwyn bod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol, byddai'n elwa ar gyfathrebu gwell, rhannu dyheadau digidol a gwersi yn fwy effeithiol, mynd i'r afael â heriau ei weithlu, a gallu dangos gwerth am arian.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae partneriaid o'r farn bod y cydweithrediad wedi cyflawni'n effeithiol yn ystod y pandemig ac er mwyn bod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol, byddai'n elwa ar gyfathrebu gwell, rhannu dyheadau digidol a gwersi yn fwy effeithiol, mynd i'r afael â heriau ei weithlu, a gallu dangos gwerth am arian 8

Gweledigaeth a chynllun a rennir 8

Cyfeiriad a blaenoriaethau 9

Alinio a chefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion technegol a strategol 10

Goruchwylio, atebolrwydd a chanlyniadau 12

Cwestiwn cyffredinol yr adolygiad 14

Atodiad 1 16

Atodiad 2 23

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Mae'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) a leolir yng Ngwent yn ddarpariaeth technoleg gydweithredol i ddarparu gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth (TG) a rennir rhwng pum partner:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;
- Cyngor Sir Fynwy;
- Cyngor Dinas Casnewydd;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent (Heddlu Gwent).

2 Yn 2015, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o waith sefydlu'r SRS. Ers hynny, mae nifer y cynghorau sy'n bartneriaid yr SRS wedi dyblu. Hefyd, mae rheoli gwybodaeth a thechnoleg wedi esblygu'n sylweddol yn y cyfnod hwnnw ac mae wedi dod yn sylfaen i alluogi gwahanol raglenni trawsnewid yn y sector cyhoeddus.

3 Ym mis Hydref 2019, cynhaliwyd gweithdy cwmpasu cychwynnol defnyddiol ar y cyd ac roedd cynrychiolwyr o bob un o'r partneriaid llywodraeth leol, ac yna cafwyd sgwrs gyda Heddlu Gwent. Tynnodd y ddau sylw at rai meysydd allweddol i'w hystyried fel rhan o'n hadolygiad dilynol o'r cydweithrediad.

4 Yna cytunodd Archwilio Cymru a’r cydweithrediad SRS ar friff prosiect ar gyfer adolygiad hwyluso o'r cydweithrediad SRS. Ceisiodd yr adolygiad hwn nodi ffyrdd o gryfhau'r cydweithrediad SRS er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni darpariaeth effeithiol, effeithlon a darbodus yn gynaliadwy o fewn yr amgylchedd deinamig hwn, yn awr ac ar gyfer y dyfodol, ar gyfer ei bartneriaid yn unigol ac yn gyfunol.

### Methodoleg

5 Yng ngwanwyn 2020, cynhaliodd Archwilio Cymru weithdai cychwynnol gyda'r grwpiau cyflawni (grwpiau gweithredu lleol) gyda phob sefydliad partner, ac eithrio Torfaen oherwydd nad oedd staff ar gael ar y pryd. O ganlyniad i'r gweithdai hynny, datblygodd Archwilio Cymru gyfres o ddatganiadau ar sail cwestiynau allweddol yr adolygiad.

6 Yn sgil pandemig COVID-19 yng ngwanwyn 2020, yn ddealladwy, gohiriwyd y gweithdai arfaethedig gyda'r 3 bwrdd strategol (Cyllid a Llywodraethu, Busnes a Chydweithredu, a'r Bwrdd Strategol) wrth i'r cyrff cyhoeddus ymateb i'r pandemig a'i effaith ar gymunedau lleol.

7 Yna hwylusodd Archwilio Cymru y gweithdai gyda'r Byrddau Cyllid a Llywodraethiant a Busnes a Chydweithredu yn hydref 2020. Oherwydd y pwysau

cynyddol a achoswyd gan y pandemig, gohiriwyd gweithdy'r Bwrdd Strategol tan ddiwedd mis Ebrill 2021.

8 Gwnaethom ofyn cyfres safonol o gwestiynau arolwg i holl gyfranogwyr y gweithdy. Mae cwestiynau'r arolwg a'r ymatebion o bob gweithdy ar gael yn **Atodiad 1**.

## Allbwn

9 Swyddogaeth Archwilio Cymru yn yr adolygiad hwn oedd hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid y cydweithrediad SRS. O'r herwydd, mae allbynnau'r adolygiad yn adlewyrchu barn y cydweithrediad yn hytrach na barn Archwilio Cymru.

10 Yn flaenorol, gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'r trafodaethau ym mhob un o'r gweithdai a gynhaliwyd gyda'r tri bwrdd strategol. Y ddogfen hon yw allbwn terfynol yr adolygiad ac mae'n rhoi crynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r gweithdai hynny. Mae'n nodi canfyddiad cyffredinol yr adolygiad a'r canfyddiadau cryno ar sail pob un o'r cwestiynau allweddol. Rydym wedi drafftio'r penawdau i adlewyrchu'r safbwyntiau a rennir gan y rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdai.

11 Nid ydym wedi cynnwys cynigion ar gyfer gwella nac argymhellion. Yn hytrach, mae'r ddogfen hon yn cynnwys y meysydd allweddol ar gyfer datblygu neu amodau y gellid eu cryfhau, fel y nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdai, er mwyn sicrhau bod y cydweithrediad mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuom

12 Ceisiodd yr adolygiad ddeall:

**A yw’r cydweithrediad gwasanaeth adnoddau a rennir (SRS) yn cyflawni'n effeithiol yn awr a pha amodau y gellid eu cryfhau fel ei fod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol?**

**A) Gweledigaeth a chynllun a rennir**

A oes dealltwriaeth gyffredin o weledigaeth a chynllun tactegol y cydweithrediad SRS ac a yw’r partneriaid wedi bod yn rhan o’r broses o’u llunio?

**B) Cyfeiriad a blaenoriaethau**

A yw pob un o'r sefydliadau partner yn cynnig digon o arweiniad strategol o ran eu dyheadau digidol unigol a chyfunol?

**C) Alinio a chefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion technegol a strategol**

A yw'r cydweithrediad SRS yn cefnogi pob un o'r partneriaid cyfansoddol yn unigol ac yn gyfunol i gynnal cydnerthedd TG presennol gan eu helpu hefyd i ddatblygu a chyflawni o gymharu â’u mapiau ffordd digidol 5-10 mlynedd?

**D) Manteision gwireddu’r cydweithrediad**

A yw pob sefydliad partner yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau y gall y cydweithrediad SRS gynnig y gwersi cyffredin a’r effeithlonrwydd mwyaf posibl?

**E) Goruchwyliaeth, atebolrwydd a chanlyniadau**

A yw'r trefniadau llywodraethu presennol yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o'r cynllun tactegol, perfformiad, adnoddau a chanlyniadau, yn awr ac ar gyfer y dyfodol?

13 Yn gyffredinol, mae partneriaid yr SRS o'r farn bod y cydweithrediad wedi cyflawni'n effeithiol yn ystod y pandemig ac er mwyn bod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol, byddai'n elwa ar gyfathrebu gwell, rhannu dyheadau digidol a gwersi yn fwy effeithiol, mynd i'r afael â heriau ei weithlu, a gallu dangos gwerth am arian. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- mae gan bartneriaid gyd-ddealltwriaeth a mewnbwn i weledigaeth a chynllun tactegol y cydweithrediad ac mae partneriaid wedi gweld mwy o fanteision o gydweithio trwy bandemig Covid
- mae partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd darparu mewnbwn mwy strategol mewn modd amserol ynghylch eu dyheadau digidol unigol i lywio gweithredu ar y cyd
- mae partneriaid yn cydnabod bod y cydweithrediad wedi cefnogi cydnerthedd TG pob partner yn effeithiol trwy'r pandemig.Er hynny mae'n wynebu heriau staffio. Nododd partneriaid yr angen i ddatblygu mapiau ffordd digidol treigl i lywio cyfeiriad strategol y cydweithrediad
- cydnabu partneriaid yr angen i rannu gwersi yn fwy cyson ac effeithiol ar draws y cydweithrediad i ddangos ei fod yn cyflawni mwy o effeithlonrwydd
- dywedodd partneriaid wrthym fod trefniadau llywodraethu'r SRS yn darparu goruchwyliaeth ond bod angen gwella cyfathrebu rhwng y byrddau ac ymhob partner .

# Adroddiad manwl

## Mae partneriaid o'r farn bod y cydweithrediad wedi cyflawni'n effeithiol yn ystod y pandemig ac er mwyn bod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol, byddai'n elwa ar gyfathrebu gwell, rhannu dyheadau digidol a gwersi yn fwy effeithiol, mynd i'r afael â heriau ei weithlu, a gallu dangos gwerth am arian

14 Mae'r tudalennau canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r gweithdai gyda'r Byrddau Cyllid a Llywodraethiant, Busnes a Chydweithredu a Strategol wedi’u trefnu ar sail pob un o'r cwestiynau allweddol ar gyfer yr adolygiad.

15 Gwnaethom nodi'r canfyddiadau interim ar gyfer pob cwestiwn fel y nodwyd ym mis Mawrth 2020 ac yna'r canfyddiad terfynol yn haf 2021.

16 Rydym yn cyflwyno'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob cwestiwn:

- **Yr hyn a ganfuom**

  Mae'r adran hon yn crynhoi'r pwyntiau allweddol sy'n deillio o drafodaethau gan gyfranogwyr y gweithdai. Ceir crynodeb manylach o'r trafodaethau ym mhob gweithdy yn y crynodebau allbwn gweithdy a rannwyd â'r tri bwrdd strategol.

  Mae'r adran hon hefyd yn crynhoi’r canfyddiadau sy’n deillio o gwestiynau'r arolwg a ofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdai. Mae siartiau sy'n dangos y dadansoddiad llawn o ymatebion yr arolwg ar gyfer pob gweithdy bwrdd ar gael yn Atodiad 1.

- **Meysydd allweddol i'w datblygu**

  Gofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdai nodi'r meysydd allweddol ar gyfer datblygu / amodau y gellid eu cryfhau fel bod y cydweithrediad mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol. Mae'r adran hon yn crynhoi eu hymatebion.

DRAFT

## Gweledigaeth a chynllun a rennir

**A oes dealltwriaeth gyffredin o weledigaeth a chynllun tactegol y cydweithrediad SRS ac a yw'r partneriaid yn rhan o'u llunio?**

Canfyddiad mis Mawrth 2020: safbwyntiau amrywiol ar lefel cyfranogiad partneriaid wrth lunio'r strategaeth a'r cynllun tactegol.

Canfyddiad haf 2021: mae gan bartneriaid ddealltwriaeth gyffredin a mewnbwn i weledigaeth a chynllun tactegol y cydweithrediad ac mae partneriaid wedi gweld mwy o fanteision o gydweithio trwy bandemig Covid.

17 Yr hyn a ganfuom:

- roedd bron pob un o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno bod canlyniadau a dyheadau'r weledigaeth a'r cynllun tactegol yn glir.
- roedd bron pob un o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno bod eu sefydliad yn rhan o lunio'r weledigaeth a'r cynllun tactegol.
- roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno bod angen i'r cysylltiadau rhwng strategaeth, cynllun tactegol, grwpiau cyflawni a byrddau llywodraethiant fod yn fwy eglur.
- bu gwelliannau sylweddol ers y gwaith gwreiddiol, yn enwedig ers y gweithdai a gynhaliwyd yn 2019, e.e.
- strategaeth ddiwygiedig a chynllunio tactegol gwell a phwyslais parhaus ar eu cyflawni;
- gwell eglurder o ran swyddogaeth Byrddau Cyllid a Llywodraethiant a Busnes a Chydweithredu a chysylltiadau rhyngddynt;
- gwell dealltwriaeth o ddyheadau partneriaid.
- mae canlyniadau a dyheadau'r weledigaeth a'r cynllun tactegol yn glir
- mae sefydliadau partner yn rhan o lunio'r weledigaeth a'r cynllun tactegol
- mae COVID wedi cadarnhau pwysigrwydd a manteision SRS ar ôl troed lleol.
- roedd cyflwyno Teams a 365 yn gyflym yn dangos gwerth yr SRS.
- roedd partneriaid mewn mannau gwahanol i ddechrau ond maent bellach wedi'u halinio. Er y nododd rhai cynghorau nad yw eu blaenoriaethau trawsnewid unigol bob amser yn cyd-fynd yn llwyr â strategaeth a chynllun tactegol yr SRS.

18 Meysydd allweddol i'w datblygu:

- alinio gweithgarwch trawsnewid ar lefel sefydliad â strategaeth yr SRS
- nodi cyfleoedd a fydd yn ysgogi'r manteision mwyaf a sicrhau bod y cydweithrediad SRS yn gwireddu ei botensial i'r eithaf
- mae angen i gysylltiadau rhwng strategaeth, cynllun tactegol, grwpiau cyflawni a byrddau llywodraethu fod yn fwy eglur

## Cyfeiriad a blaenoriaethau

**A yw pob un o'r sefydliadau partner yn cynnig digon o arweiniad strategol o ran eu dyheadau digidol unigol a chyfunol?**

Canfyddiad mis Mawrth 2020: teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod mewnbwn strategol yn anghyson.

Canfyddiad haf 2021: mae partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd darparu mewnbwn mwy strategol mewn modd amserol ynghylch eu dyheadau digidol unigol i lywio gweithredu ar y cyd.

19 Yr hyn a ganfuom:

- roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno bod mewnbwn strategol eu sefydliad yn ddigonol i gyflawni ei ddyheadau digidol o fewn y cydweithrediad.
- roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno bod mewnbwn strategol partneriaid eraill yn ddigonol i gyflawni eu dyheadau digidol cyfunol.
- mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg yn credu bod strategaeth a chynllun tactegol y cydweithrediad yn ategu dyheadau digidol eu sefydliadau eu hunain.
- mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno bod gwahanol lefelau o seilwaith TG, aeddfedrwydd newid busnes, a dyheadau digidol yn gwneud gweledigaeth gyffredin yn fwy heriol.
- mae sefydliadau unigol ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd digidol ac mae ganddynt wahanol amserlenni a blaenoriaethau, sy'n cyflwyno heriau, ond mae'r bwlch mewn aeddfedrwydd digidol rhwng sefydliadau yn cau.
- mae'r bylchau hyn, ynghyd â blaenoriaethau gwahanol, yn golygu bod rhai partneriaid yn mynd ar drywydd cynlluniau digidol y tu allan i'r cydweithrediad drwy eu timau digidol eu hunain. Potensial felly i'r SRS ganolbwyntio ar agweddau cydweithio.
- mae'r SRS yn darparu'r llwyfan ond mae mwy o le i wneud mwy gyda'i gilydd fel partneriaid.
- weithiau gall cytundeb cyfunol a threfniadau contract gwahanol fod yn rhwystr i gynnydd gan arafu pethau.
- mae mwy o bwyslais ar seilwaith yn hytrach na systemau wedi arwain at gynnydd. Mae'r cydweithrediad yn effeithiol wrth asesu'r blaenoriaethau allweddol y mae angen iddo weithio arnynt i alluogi partneriaid i symud ymlaen, gyda phartneriaid unigol yn gyfrifol am eu dull systemau eu hunain.
- cydnabu rhai partneriaid yr angen i adolygu a diweddaru eu strategaeth ddigidol eu hunain neu ddatblygu eu blaenoriaethau trawsnewid digidol ymhellach er mwyn darparu arweiniad strategol ar gyfer y cydweithrediad yn well.
- rhybuddiodd rhai partneriaid am y perygl o wneud gormod yn rhy fuan ac yn hytrach, am gadw pethau'n hylaw. Cydbwysedd i'w daro rhwng uchelgais a phwyslais.

- mae gwaith diweddar ar gynllun busnes ar gyfer symud seilwaith wedi dangos bod cwestiynau sy'n dal heb eu datrys y mae angen safbwynt a chynllun cliriach arnynt.

20 Meysydd allweddol i'w datblygu:

- er bod cynnydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, gellid gwneud mwy i rannu dyheadau digidol ar draws partneriaid i ddeall dyheadau a bylchau ei gilydd a chydweithio i'w datblygu.
- mae lle hefyd i ddatblygu cynlluniau digidol mwy uchelgeisiol.

## Alinio a chefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion technegol a strategol

**A yw'r cydweithrediad SRS yn cefnogi pob un o'r partneriaid cyfansoddol yn unigol ac yn gyfunol i gynnal cydnerthedd TG presennol gan helpu i ddatblygu a chyflawni eu mapiau ffordd digidol 5–10 mlynedd ar yr un pryd?**

Canfyddiad mis Mawrth 2020: yn ddiweddar bu dull cryfach o weithio gyda phob partner, ond mae angen datblygu mapiau ffordd digidol unigol a chyfunol ymhellach.

Canfyddiad haf 2021: mae partneriaid yn cydnabod bod y cydweithrediad wedi cefnogi cydnerthedd TG pob partner yn effeithiol trwy'r pandemig, er hynny mae'n wynebu heriau staffio. Nododd partneriaid yr angen i ddatblygu mapiau ffordd digidol treigl i lywio cyfeiriad strategol y cydweithrediad.

21 Yr hyn a ganfuom:

- cytunodd rhai o gyfranogwyr yr arolwg fod gan eu sefydliad fap ffordd digidol 5-10 mlynedd wedi'i ddatblygu'n llawn.
- cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg fod ansicrwydd ynghylch cyllid ariannol yn y dyfodol ac adnoddau technoleg a rheoli gwybodaeth yn llesteirio cynnydd ar flaenoriaethau tymor hwy.
- roedd bron i hanner cyfranogwyr yr arolwg yn cytuno, o'r wybodaeth a roddwyd i'r cydweithrediad, ei bod yn anodd cael darlun clir o'r darlun cyfan o'r problemau sy'n wynebu’r cydnerthedd TG presennol.
- cytunodd llawer o gyfranogwyr yr arolwg fod gan eu sefydliad gynllun gweithlu a fydd yn darparu digon o staff TG mewnol ar gyfer cymorth cymhwyso lleol a phrosiectau newydd.
- roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno bod gan y gwasanaeth SRS ddigon o staff TG i gyflawni'r cynllun tactegol.
- cytunodd holl gyfranogwyr yr arolwg fod y cydweithrediad SRS yn cyflawni lefelau priodol a derbyniol o gydnerthedd ac effeithlonrwydd TG.
- ystyrir bod cydnerthedd TG yn gryf iawn, fel y dangoswyd gan y pandemig. Mae technoleg cwmwl yn ogystal â symud y ganolfan ddata yn cryfhau cydnerthedd ymhellach.

- mae cydnerthedd staffio (o ran y sgiliau sydd ar gael) yn broblem. Mae recriwtio a chadw staff yn her gan fod staff yn cael eu colli i gyrff llywodraeth ganolog sy'n talu cyflogau uwch ar gyfer yr un swydd.
- ystyrir bod y cydweithrediad SRS yn darparu arbedion maint yn ogystal â'r gallu i symud adnoddau ar gyfer blaenoriaethau / argyfyngau.
- ystyriwyd bod mapiau ffordd 5-10 mlynedd yn rhy uchelgeisiol o ystyried natur gyflym TG. Mae trafferthion i ddatblygu map ffordd hirdymor yn effeithio ar gynllunio cydweithredol. Ystyrir bod map ffordd hyblyg 2-3 blynedd yn nod mwy realistig.
- gall materion capasiti o fewn yr SRS effeithio ar gymorth strategol gan eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaethau technegol.
- mae angen sicrhau bod digon o fuddsoddiad ar gael gan fod adnoddau'n allweddol i ddarparu mapiau ffordd digidol a model cyflawni cynaliadwy.
- awgrymodd rhai partneriaid y gallai arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio'r un systemau fod yn bwerus iawn.
- mae gan yr SRS raglen tymor hwy (5-6 blynedd) ond byddai'n elwa ar gynllun blynyddol i ddarparu pwyslais tymor byrrach.

22 Meysydd allweddol i'w datblygu:

- pob partner i ddatblygu mapiau ffordd treigl tymor canolig sy'n 'fyw' ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- nodi ffyrdd o fynd i'r afael â’r mater o gydnerthedd staffio a’r sgiliau sydd ar gael.
- ystyried manteision defnyddio'r un systemau digidol ar draws partneriaid.

## Manteision gwireddu’r cydweithrediad

**A yw pob sefydliad partner yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau y gall y cydweithrediad SRS gynnig y gwersi cyffredin a’r effeithlonrwydd mwyaf posibl?**

Canfyddiad mis Mawrth 2020: cydnabu pob un o'r partneriaid yr angen i rannu gwersi’n ehangach ac i hybu mwy o effeithlonrwydd.

Canfyddiad haf 2021: cydnabu partneriaid yr angen i rannu gwersi mewn modd mwy cyson ac effeithiol ar draws y cydweithrediad i ddangos ei fod yn cyflawni gwell effeithlonrwydd.

23 Yr hyn a ganfuom:

- roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno bod sefydliadau’n cyfrannu’n gyfartal at gefnogi'r cydweithrediad SRS i fod yn fwy effeithlon a rhannu gwersi.
- cytunodd ychydig dros hanner y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn glir ynghylch y trefniadau ar gyfer rhannu gwersi o fewn y bartneriaeth.
- ystyrir bod rhannu gwersi ac ysgogi mwy o arbedion effeithlonrwydd yn bwysig ac yn fuddiol i bawb ac mae partneriaid yn hapus i rannu eu

profiadau a'u gwersi. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer gwersi cyffredin yn ddealladwy ar y cyfan.

- ceir enghreifftiau cadarnhaol o rannu gwersi ar draws partneriaid, e.e. cyflwyno Office 365. Nododd y cyfranogwyr fod rhannu gwersi yn aml yn digwydd ar lefel weithredol ar gyfer materion cyflenwi penodol. Adlewyrchir hyn mewn gwell gweithredu wrth i bartneriaid ddysgu oddi wrth ei gilydd.
- nid yw pob partner yn cyfrannu i'r un lefel oherwydd lle maen nhw ar eu teithiau digidol, ond ystyriwyd bod hyn yn naturiol ac nid yn broblem.
- mae deialog agored ac adeiladol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Busnes a Chydweithredu hefyd o gymorth o ran helpu i rannu gwersi ac ystyried arbedion effeithlonrwydd.
- caiff gwersi eu crynhoi drwy sianeli anffurfiol a ffurfiol ond nid yw bob amser wedi'i strwythuro nac yn rhagweithiol, e.e. enghreifftiau o daro ar wersi a rannwyd gan bartneriaid eraill.
- heb y cydweithio, byddai gwybodaeth am arfer da / gwael yn annhebygol o gael ei rhannu. Yn bennaf oherwydd diffyg strwythur effeithlon i ganiatáu hyn. Ystyrir bod SRS yn ateb sy'n galluogi partneriaid i rannu gwybodaeth.
- gall amser fod yn rhwystr rhag rhannu gwersi oherwydd, fel arfer, symudir ymlaen yn syth i'r peth nesaf pan fydd prosiect wedi'i gwblhau, heb neilltuo amser i fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd a'u rhannu.
- mae llai o rannu taith ddigidol sefydliadau unigol ac mae lle i arweinydd digidol pob sefydliad chwarae mwy o ran mewn rhannu a chydweithio.

24 Meysydd allweddol i'w datblygu:

- archwilio sut i ddod â dysgu ynghyd o lefel weithredol yn ogystal â'r bwrdd Busnes a Chydweithredu mewn dull mwy strwythuredig ond heb fod yn feichus. Potensial ar gyfer 'sesiynau rhannu'.
- cydnabod y gall tîm canolog yr SRS helpu i hybu effeithlonrwydd ac maent wedi gwneud hynny eisoes, felly cynnal y dysgu hwnnw.
- parhau i ddangos llwyddiant, fel y dangoswyd yn ddiweddar gyda Teams ac Office 365.
- neilltuo amser i rannu gwersi.
- cyfle i rannu Mapiau Ffordd Digidol fel sefydliadau. Rhannu gwersi a llywio iteriad nesaf y cynllun tactegol.

## Goruchwylio, atebolrwydd a chanlyniadau

**A yw'r trefniadau llywodraethu presennol yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o'r cynllun tactegol, perfformiad, adnoddau a chanlyniadau, yn awr ac ar gyfer y dyfodol?**

Canfyddiad mis Mawrth 2020: Roedd gan bartneriaid safbwyntiau gwahanol ar effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu presennol.

Canfyddiad haf 2021: Dywedodd partneriaid wrthym fod trefniadau llywodraethu'r SRS yn darparu goruchwyliaeth ond bod angen gwella'r cyfathrebu rhwng y byrddau ac ymhob partner.

25 Yr hyn a ganfuom:

- cytunodd holl gyfranogwyr yr arolwg fod y trefniadau llywodraethu presennol yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o'r cynllun tactegol.
- cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg fod y trefniadau llywodraethu presennol yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o berfformiad.
- cytunodd bron pob un o gyfranogwyr yr arolwg fod y trefniadau llywodraethu presennol yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o adnoddau.
- cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg fod y trefniadau llywodraethu presennol yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o ganlyniadau.
- cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg fod cynrychiolaeth dda o bob sefydliad bob amser yn bresennol yng nghyfarfodydd bwrdd yr SRS.
- cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg fod sail resymegol glir pam y trafodir eitemau ar yr agenda yn y Byrddau o fewn y strwythur llywodraethu.
- cytunodd llawer o gyfranogwyr yr arolwg fod y penderfyniadau a wneir gan fyrddau’r SRS yn ddealladwy ac yn cael eu cyfleu'n glir.
- cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg fod eu sefydliad yn craffu'n effeithlon ac yn effeithiol ar y cydweithrediad SRS.
- cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg fod gan eu sefydliad oruchwyliaeth dderbyniol o weithgareddau ac allbynnau archwilio mewnol.
- cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg fod lefelau digonol o her a chraffu o fewn trefniadau llywodraethu'r SRS i fod yn sicr o'i effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd.
- ystyriwyd yn gyffredinol fod y trefniadau llywodraethu presennol yn effeithiol ac wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- teimlai llawer o'r cyfranogwyr fod y broses o wneud penderfyniadau gan y byrddau bellach yn cael ei chyfleu'n gliriach ond roedd cytundeb y gellid cryfhau cyfathrebu ymhellach.
- ceir craffu rheolaidd ar yr SRS ar lefel sefydliad unigol ond nid oes unrhyw graffu ar y cyd.
- Mae trefniadau cyfathrebu ar lefel partner yn amrywio yn ôl sefydliad. Mae lle i wella llif gwybodaeth rhwng aelodau'r bwrdd mewn rhai sefydliadau partner.

26 Meysydd allweddol i'w datblygu:

- mae potensial ar gyfer craffu ar y cyd ar yr SRS (yn hytrach na bod partneriaid unigol yn gwneud y gwaith) er mwyn gallu craffu'n well ar yr elfen gydweithredu
- mae'r agweddau technegol ar ddarparu'r gwasanaeth weithiau'n groes i'r pwyslais ar gydweithio – mae angen rheoli'r tensiynau hyn

- mae angen i bob partner fod yn bresennol mewn cyfarfodydd Bwrdd gan y gall hyn gyfyngu ar gytundeb / cydweithio
- teimlwyd bod cyfathrebu a rhwyddineb cael gafael ar wybodaeth yn faes lle gellid gwella yn hawdd ac yn gyflym. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:
  - datblygu un ystorfa o ddogfennau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â'r gwahanol fyrddau i gynorthwyo cyfathrebu a deall. Ar hyn o bryd, nid yw agendâu ac adroddiadau'n hawdd eu rhannu o fformat dosbarthu MS Teams.
  - gwella cyfathrebu rhwng aelodau’r bwrdd mewn sefydliadau partner. Nododd rhai cyfranogwyr ddiffyg dealltwriaeth, e.e. tensiynau ynghylch ariannu buddsoddiadau technegol, y gellid eu datrys drwy gyfathrebu mewnol gwell.
  - gwella cyfathrebu rhwng y tri bwrdd er mwyn sicrhau eu bod wedi'u halinio'n briodol. Gall diwrnod blynyddol i ffwrdd helpu aelodau'r bwrdd i ddeall materion y tu allan i'w bwrdd yn well.

## Cwestiwn cyffredinol yr adolygiad

**A yw’r cydweithrediad gwasanaeth adnoddau a rennir (SRS) yn cyflawni'n effeithiol yn awr a pha amodau y gellid eu cryfhau fel ei fod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol?**

Canfyddiad mis Mawrth 2020: er bod pob partner yn teimlo bod gwerth i'r cydweithrediad a’i fod yn symud ymlaen, mae angen i lywodraethu cydweithredol hwyluso gwell cyfathrebu a pherthynas rhwng partneriaid, er mwyn dangos a yw'r cydweithio ar y cyd ac yn unigol yn sicrhau gwerth am arian.

Canfyddiad haf 2021: mae partneriaid o'r farn bod y cydweithrediad wedi cyflawni'n effeithiol yn ystod y pandemig ac er mwyn bod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol, byddai'n elwa ar gyfathrebu gwell, rhannu dyheadau a dysgu digidol yn fwy effeithiol, mynd i'r afael â heriau'r gweithlu, a gallu dangos gwerth am arian.

27 Yr hyn a ganfuom:

- roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y pandemig wedi tynnu sylw at fanteision yr SRS – mae wedi cyflawni gwasanaeth effeithiol mewn modd amserol, ac mae'r cydweithrediad bellach yn gweithio'n llawer gwell gyda'i gilydd.
- gwelwyd bod y cydweithrediad yn rhoi gwerth ychwanegol dros sefydliad masnachol ac mae'n ysgogi gwelliannau na fyddai wedi'u cyflawni'n unigol. Tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at yr angen i reoli disgwyliadau; sef na all y cydweithrediad ddatrys pob problem gyda'r adnoddau presennol.
- yn gyffredinol, ystyriwyd bod y cydweithrediad SRS yn werth da am arian ac yn ffordd gost-effeithiol o gyflawni gwasanaethau TG, ond roedd diffyg tystiolaeth i ddangos / mesur yn hyderus ei fod yn rhoi gwerth da am arian i bob sefydliad partner.
- nid oedd cyfranogwyr yn ymwybodol o unrhyw waith a wnaed ar gymharu costau / meincnodi i helpu i ddangos gwerth am arian.

- ystyriwyd bod dangos gwerth am arian yn heriol o ystyried y canlynol:
  - mae pob partner yn debygol o ystyried gwerth am arian fel rhywbeth gwahanol;
  - wrth i bartneriaid newydd gymryd rhan yn yr SRS mae wedi newid paramedrau'r costau ac mae pob partner wedi dod o fan cychwyn gwahanol.


28 Meysydd allweddol i'w datblygu:


- dangos bod y cydweithrediad SRS yn rhoi gwerth am arian i bob partner. Er y bydd y meini prawf ar gyfer asesu gwerth am arian yn amrywio o un sefydliad i'r llall, bydd rhywfaint o gytundeb cyffredin yn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei darparu gan yr SRS i helpu sefydliadau unigol i wneud eu hasesiad eu hunain.


# Atodiad 1

## Canlyniadau'r arolwg


**Gweledigaeth a chynllun a rennir**












## Cyfeiriad a blaenoriaethau






Y Bwrdd Busnes a Chydweithredu
The strategic input by my organisation is sufficient to achieve its digital aspirations within the collaboration
The strategic input by other partners is sufficient to achieve our collective digital aspirations
The collaboration's strategy and tactical plan are complementary to my organisation's own digital aspirations
Differing levels of IT infrastructure, maturity of business change, and digital aspirations make a shared vision more...
0 3 1 0
0 3 1 0
0 4 0
0 2 2 0
0 0.5 1 1.5 2 2.5 3 3.5 4 4.5
Strongly agree
Agree
Disagree
Strongly disagree


Y Bwrdd Cyllid a Llywodraethiant
The strategic input by my organisation is sufficient to achieve its digital aspirations...
The strategic input by other partners is sufficient to achieve our collective digital...
The collaboration's strategy and tactical plan are complementary to my...
Differing levels of IT infrastructure, maturity of business change, and digital...
2 1 2 0
0 2 3 0
0 3 1 0
3 2 0 1
0 1 2 3 4 5 6 7
Strongly agree
Agree
Disagree
Strongly disagree


**Alinio a chefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion technegol a strategol**









**Manteision gwireddu'r cydweithrediad**











## Goruchwylio, atebolrwydd a chanlyniadau




Y Bwrdd Busnes a Chydweithredu
The current governance arrangements provide effective...
The current governance arrangements provide effective...
The current governance arrangements provide effective...
The current governance arrangements provide effective...
SRS board meetings are always well attended by all...
There is a clear rationale why agenda items are discussed at...
The decisions made by SRS boards are both easily accessible...
My organisation efficiently and effectively scrutinises the...
My organisation has acceptable oversight of internal audit...
There are sufficient levels of challenge and scrutiny within...
0
2
4
6
Strongly agree
Agree
Disagree
Strongly disagree


Y Bwrdd Cyllid a Llywodraethiant
The current governance arrangements provide effective...
The current governance arrangements provide effective...
The current governance arrangements provide effective...
The current governance arrangements provide effective...
SRS board meetings are always well attended by all...
There is a clear rationale why agenda items are discussed at...
The decisions made by SRS boards are both easily accessible...
My organisation efficiently and effectively scrutinises the...
My organisation has acceptable oversight of internal audit...
There are sufficient levels of challenge and scrutiny within...
0
2
4
6
8
Strongly agree
Agree
Disagree
Strongly disagree

# Atodiad 2



Adolygiad Dilynol o'r GRR
Mae partneriaid o'r farn bod y cydweithio wedi cyflawni'n effeithiol yn ystod y pandemig ac i fod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol byddai'n elwa o well cyfathrebu, rhannu dyheadau a dysgu digidol yn fwy effeithiol, mynd i'r afael â heriau ei weithlu a gallu dangos gwerth am arian.
STRATEGAETH
Roedd pawb yn cytuno bod y canlyniadau a'r dyheadau yn glir
Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod angen i gysylltiadau rhwng strategaeth, cynllun tactegol, grwpiau cyflawni a byrddau llywodraethu fod yn fwy eglur
LLYWODRAETHU
Ystyrir yn gyffredinol ei fod yn effeithiol ac wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf
Cytunodd llawer o gyfranogwyr yr adolygiad fod y penderfyniadau a wneir yn hawdd eu cyrraedd ac yn cael eu cyfleu'n glir
DYHEADAU DIGIDOL
Cytunodd y rhan fwyaf fod mewnbwn strategol gan eu sefydliad yn ddigonol i gyflawni ei ddyheadau digidol o fewn y cydweithio
Cytunodd y rhan fwyaf fod mewnbwn strategol gan bartneriaid eraill yn ddigonol i gyflawni eu dyheadau digidol cyfunol
BUDDION A RENNIR
Cytunodd hanner eu bod yn glir ynghylch y trefniadau ar gyfer dysgu a rennir o fewn y bartneriaeth
Cytunodd y rhan fwyaf fod sefydliadau yr un mor cyfrannu at gefnogi'r cydweithio i fod yn fwy effeithiol a rhannu dysgu
GWAITH GWERTH AM ARIAN
Ystyrir ei fod yn werth da am arian ac yn ffordd gost-effeithiol o ddarparu gwasanaethau TG a sbarduno gwelliannau ond mae diffyg tystiolaeth i ddangos hyn
CYDNERTHEDD
Cytunodd pawb fod y cydweithio'n sicrhau lefelau priodol a derbyniol o gadernid TG ac effeithlonrwydd

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English